



27 Mawrth 2020

Annwyl Andrew,

Gobeithio eich bod chi'n cadw'n iach ac yn ddiogel wrth inni gyd addasu i sefyllfaoedd y tu hwnt i'n rheolaeth. Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod anodd i chi fel arweinwyr colegau Addysg Bellach, gyda dysgwyr, ymarferwyr, rhieni ac eraill i gyd yn gofyn am atebion ac eglurder ar bob math o bethau, gan gynnwys y cynllun ar gyfer graddau ac asesiadau.

Gallaf eich sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr eraill a chyrrff dyfarnu i sefyldu'r ffordd decaf i gyhoeddi canlyniadau i ddysgwyr.

Yr wythnos diwethaf gwnaethom ddarparu eglurder ar raddio ar gyfer Safon Uwch a TGAU a byddwn yn cyhoeddi datganiad ar ddull haf 2020 o ymdrin â safon UG a dysgwyr Blwyddyn 10 yn fuan.

Mae cymwysterau galwedigaethol yr un mor bwysig i ddysgwyr yng Nghymru ac rydyn ni'n gweithio ar atebion sy'n cynnig y ffordd orau a thecaf ymlaen. Ar gyfer cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru yn unig rydym yn gweithio'n agos gyda chyrrff dyfarnu a rhanddeiliaid i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer ein dysgwyr a byddwn yn rhoi diweddariad yr wythnos nesaf.

Ar gyfer cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr ledled y DU, rydym yn gweithio gyda chyd-reoleiddwyr y DU, cyrrff dyfarnu a llywodraethau i sicrhau cysondeb a byddwn yn rhannu mwy o fanylion cyn gynted ag y gallwn.

Mae'r holl benderfyniadau a wneir wedi'u gosod o fewn cyd-destun amseroedd digynsail i bob un ohonom. Rydyn ni'n gwybod eich bod chi'n chwilio am atebion i lawer o gwestiynau ac rydyn ni'n gweithio'n galed i ddatblygu'r atebion gorau posib.

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drafod, yna cysylltwch â mi neu fy nghydweithwyr.

Diolch am eich amynedd - byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth wrth iddi ddod ar gael, felly cofiwch gadw golwg ar ein gwefan.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth wrth iddi ddod ar gael, gan rannu'r wybodaeth hon gyda chi a'i rhoi ar ein gwefan.

Rwy'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr

